

Cynllun Strategol Rheoli Cyrchfan Sir y Fflint

2020



Cyflwyno'r Gyrchfan

Mae elfen allweddol o'r dull ar gyfer adfywio a thwristiaeth yn Sir y Fflint yn canolbwyntio ar greu lleoedd o ansawdd uchel: lleoedd mae pobl yn dymuno ymweld â nhw, treulio eu hamser hamdden a gweithio yno. Mae lleoedd o ansawdd uchel yn denu buddsoddiad, maent yn gynaliadwy ac yn creu eu hegni a'u llwyddiant eu hunain.

I ymwelwyr, o fewn a'r tu allan i'r ardal, mae'r canolbwynt ar reoli'r prif gyrchfannau fel bod pob darn o'r jig-so sy'n cynrychioli eu profiad yn Sir y Fflint yn un cadarnhaol. O'r llety, i'r croeso ar y Stryd Fawr, i lanweithdra'r toiledau cyhoeddus - mae'r cyfan yn cyfrannu at brofiad cyffredinol ac yn pennu a fyddant yn dychwelyd a pha negeseuon a roddir i'w ffrindiau gartref.

Yn ogystal, mae gwella ansawdd y gyrchfan yn cynyddu cystadleuaeth. Mewn oes o ddisgwyliadau cynyddol, mae rheoli cyrchfan yn hanfodol i gystadlu mewn marchnadfa brysur. Gyda 4.7 miliwn o bobl yn byw o fewn 60 munud o daith, y dalgylch delfrydol i ymwelwyr diwrnod, mae gan Sir y Fflint farchnad anferth wrth law.

Amcangyfrifir bod y sector twristiaeth yn cefnogi 3,273 swydd uniongyrchol yn Sir y Fflint ar hyn o bryd. Amcangyfrifir y cynhyrchir £252miliwn yn flynyddol o 3.7 miliwn o ymwelwyr sy'n aros a 2.7miliwn o ymwelwyr diwrnod. **(STEAM 2016).**

Cyd-destun Strategol

Mae Rheoli Cyrchfan yn ehangach na'r sector twristiaeth traddodiadol ond mae prif wthiad ar gyfer y dull yng Nghymru yn Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru 2013-2020 'Partneriaeth ar gyfer Twf'.

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar 5 maes allweddol:

1. Hybu'r brand
2. Datblygu Cynnyrch
3. Datblygu Pobl
4. Perfformiad Proffidiol
5. Adeiladu Lle

Mae'r Strategaeth yn defnyddio dull a arweinir gan gynnyrch i ddatblygu a marchnata twristiaeth yng Nghymru gan fabwysiadu'r weledigaeth ganlynol:

Bydd Cymru yn rhoi croeso cynnes, ansawdd eithriadol, gwerth am arian ardderchog a phrofiadau cofiadwy, dilys i bob ymwelydd.

Y **nod** yw i:

Dwristiaeth dyfu mewn modd cynaliadwy a gwneud cyfraniad cynyddol i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.

Uchelgais strategaeth Partneriaeth ar gyfer Twf Cymru yw:

Cynyddu enillion twristiaeth yng Nghymru 10% neu fwy erbyn 2020.



1. Sir y Fflint Cystadleuol

Bydd rheoli llefydd o ansawdd uchel yn Sir y Fflint yn cyfrannu at lwyddiant busnesau economi ymwelwyr ond hefyd y gymuned fusnes ehangach, er enghraifft, manwerthwyr canol y dref a darparwyr gwasanaeth, cwmnïau cludiant a darparwyr lletygarwch. Bydd y dull ar gyfer rheoli cyrchfan angen cynnwys camau i gefnogi busnesau sy'n wynebu ymwelwyr i wella eu hansawdd a gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu dulliau newydd i farchnata'r Sir a darparu cynnyrch newydd i gwsmeriaid. Yn ogystal, bydd camau i wella ansawdd y mannau allweddol yn Sir y Fflint yn helpu i annog buddsoddiad i mewn i'r Sir.

2. Cymunedau Cynaliadwy

Bydd gan reoli cyrchfan effeithiol rôl bwysig fel rhan o'r dull ehangach ar gyfer datblygiad gwledig a chanol tref. Mae gan ymwelwyr rôl hanfodol i gynyddu hyfywdra gwasanaethau a busnesau gwledig a manwerthwyr Stryd Fawr. Bydd y Cynllun Rheoli Cyrchfan angen nodi sut y gellir annog cwsmeriaid i ymweld a dychwelyd i gyrchfannau allweddol yn y Sir, sut i fwyhau gwerth eu hymweliad a sut i leihau'r effeithiau posibl ar bobl leol.

3. Cyflogaeth a sgiliau

Ar hyn o bryd, mae 3,163 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol yn yr economi ymwelwyr. Mae'r sector yn darparu amrywiaeth lawn o opsiynau gyrfa a gall chwarae rhan sylweddol i gefnogi pobl i gael gwaith ac i wneud cynnydd ar ôl cael gwaith. Bydd lefelau uchel o sgiliau yn y sector yn gwella llwyddiant busnesau ac yn gwella profiad ymwelwyr. Bydd y sector angen chwarae rhan weithredol i fynd i'r afael â lefelau uchel o ddiweithdra ymhlith bobl ifanc yn sir y fflint.

Mae **Cynllun Gwella Cyngor Sir y Fflint** yn gosod blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn 2016/17 a'r hyn yr ydym yn anelu i'w gyflawni. Mae gosod blaenoriaethau yn ein helpu i roi sylw ac adnoddau i'r pethau pwysicaf; mae'r blaenoriaethau hyn yn cael eu hailadrodd yng nghynllun busnes y Cyngor. Mae twristiaeth wedi'i ychwanegu i Gynllun Gwella 2016/17 fel adlewyrchiad o rôl y sector yn economi'r Sir.

Cynllun Gweithredu

Bwriedir i Gynllun Rheoli Cyrchfan Sir y Fflint fod yn ddogfen ymarferol sy'n cynnwys camau y gellir eu cyflawni a'u mesur. Byddwn yn mabwysiadu methodoleg 'hyblyg' ar gyfer ei gyflawni gan y bydd yn esblygu'n gyflym dros amser i adlewyrchu newidiadau allanol a chynnydd a wnaed a bydd yn destun adolygiad rheolaidd gyda budd-ddeiliaid.

Bwriedir i waith y Bartneriaeth gyfrannu at **Holl Fusnesau Twristiaeth yn Sir y Fflint yn Cyflawni eu Potensial ac Ymwelwyr yn Dweud eu bod yn cael profiad o ansawdd uchel yn gyson.**



Dangosyddion

- Cynnydd mewn cyflogaeth
- Niferoedd cynyddol o ymwelwyr
- Niferoedd cynyddol o ymwelwyr yn gwario pres


Rôl y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan yw ymgynghori gyda phartneriaid a **chymeradwyo blaenoriaethau trawsffiniol strategol Llywodraeth Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chynghair Myrswy Dyfrdwy** fydd yn cael effaith gadarnhaol ar dwristiaeth a Rheoli Cyrchfan ar draws Sir y Fflint a'r rhanbarth ehangach gan gynnwys isadeiledd, sgiliau, datblygu gweithlu, datblygu cadwyn cyflenwi a datblygu prosiect mawr.

THEMA STRATEGOL 1: HYBU'R BRAND

Camau Gweithredu Allweddol	Arweinydd	Blaenoriaeth				
		2017	2018	2019	2020	
1A) Amlygu cyfleusterau wrth y Daith Hamdden drwy arwyddion a gwybodaeth ar y we	CSFf	ST	■	■	■	
1B) Parhau i gynyddu cyfraniad Sir y Fflint at Bartneriaeth Porth Marchnata Sir Gaer.	CSFf	ST	■	■		
1C) Sicrhau bod y deunydd hyrwyddo yn cyfuno gyda gwaith digidol, hybu'r wefan a sianelau cyfrwng cymdeithasol a pharhau i ddsbathu drwy allfeydd allweddol ac ar-lein fel llyfrynnau cyfrwng digidol	CSFf	ST	■	■	■	
1D) Nodi gwasanaethau dosbarthu i'w defnyddio gan bob partner o ran deunydd hyrwyddo wedi'i argraffu	CSFf, FTA, CRTG	ST	■	■		
1E) Cynnal cynnwys y wefan i sicrhau bod holl gynnyrch eiconig allweddol, digwyddiadau a chyrchfannau wedi eu cynnwys ac wedi eu diweddarau	CSFf	ST	■	■		
1F) Gweithio gyda phartneriaid allweddol i gefnogi presenoldeb cydlynol mewn arddangosfeydd teithio allweddol a sioeau teithiol	NWT, FTA, CRTG, CRFT, AONB, CSFf	MT	■	■	■	
1G) Datblygu Cynnig Hyrwyddo Gogledd Ddwyrain Cymru	NEW	MT	■	■	■	■
1H) Ymwybyddiaeth o'r Diwydiant Twristiaeth	CSFf	MT	■	■	■	■

THEMA STRATEGOL 2: DATBLYGU CYNNYRCH

Camau Gweithredu Allweddol	Arweinydd		Blaenoriaeth			
			2017	2018	2019	2020
2A) Cefnogi datblygiad Parc Arfordir Sir y Fflint gan gynnwys creu isadeiledd graddfa fechan ar hyd arfordir Dyfrdwy	CSFf (gwasanaethau cefn gwlad)	LT				
2B) Canolbwyntio ar feysydd rhanbarthol strategol o dwf mewn sectorau arbenigol – gweithredwyr taith grŵp, marchnad mordaith a thwristiaeth busnes	NEW	MT				
2C) Cynyddu enw da a phroffil Sir y Fflint fel cyrchfan bwyd o ansawdd uchel	CRFT, FTA, CRTG, GDd Cymru	ST				
2D) Hybu'r trefi, treftadaeth, diwylliant a chefn gwlad o amgylch y sir a pharhau i gefnogi gwaith i ddatblygu cynnyrch arloesol	FTA, CRTG, AONB, TC, CSFf	MT				
2E) Cynnal ymchwil ar gyrchfannau twristiaeth eraill yn y DU a meincnodi i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella yn Sir y Fflint	Coleg Cambria, Prifysgol Glynd r.	ST				
2F) Datblygu cynnyrch Gogledd Ddwyrain Cymru	NEW, MDA, NWEAB	MT/LT				




THEMA STRATEGOL 3: DATBLYGU POBL

Camau Gweithredu Allweddol	Arweinydd		Blaenoriaeth			
			2017	2018	2019	2020
3A) Parhau i ddatblygu rhaglen Llysgennad Gogledd Ddwyrain Cymru a rôl llysgenhadon	NEW, CSFf	MT				
3B) Hybu twristiaeth a phynciau cysylltiol ar gwricwlwm presennol darparwyr addysg lleol	Coleg Cambria, Prifysgol Glynd r	MT				
3C) Parhau i weithio gydag ysgolion lleol, darparwyr AU/AB ynglŷn â chyfleoedd datblygu gweithlu ar gyfer busnesau sector twristiaeth	Coleg Cambria, Prifysgol Glynd r	LT				
3D) Ymchwilio rhaglen Cyfarchwyr Byd-Eang	FTA, CRTG, CRFT, AONB, TC	MT				
3E) Darparu arweiniad gyrfya i ysgolion a cholegau gan fusnesau sector twristiaeth	CSFf, Coleg Cambria, Prifysgol Glynd r	MT/LT				



THEMA STRATEGOL 4: PERFFORMIAD PROFFIDIOL

Camau Gweithredu Allweddol	Arweinydd		Blaenoriaeth			
			2017	2018	2019	2020
4A) Cefnogi clystyrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol	FTA, CRTG, CRFT, AONB, NWT	ST				
4B) Creu calendr o ddigwyddiadau mawr yn Sir y Fflint ac amcangyfrif yr effaith ar yr economi leol yn seiliedig ar ddata sydd ar gael	CSFf (Celfyddydau a Digwyddiadau)	MT				
4C) Nodi cyfnodau lle mae yna lai o weithgaredd, nifer llai o ymwelwyr, llai o wario pan fyddai digwyddiadau a dathliadau yn darparu hwb i nifer yr ymwelwyr ac economi ymwelwyr	TC, TP	MT				
4D) Cynyddu cyfradd cyfraniad busnesau yn STEAM ynghyd ag offer proffilio ychwanegol	Cyngor Sir y Fflint	ST				
4E) Archwilio cyfleoedd ar gyfer cynyddu cynhyrchiant a pherfformiad yn y sector twristiaeth	Coleg Cambria, Prifysgol Glyndwr, FTA, CRTG	MT				



THEMA STRATEGOL 5: ADEILADU LLE

Camau Gweithredu Allweddol	Arweinydd		Blaenoriaeth			
			2017	2018	2019	2020
5A) Parhau i weithredu gwaith sy'n gysylltiedig â: <ul style="list-style-type: none"> Cynllun Meistr Talacre a Gronant Datblygu cysylltiadau corfforol a thematig rhwng Canol Tref Treffynnon, Ffynnon Gwenfrewi, Dyffryn Maes Glas, Porthladd Maes Glas a'r arfordir Cynllun Meistr y Fflint a mwyhau potensial Castell y Fflint i'r dref a'r rhanbarth ehangach Cefnogi darpariaeth Cynllun Rheoli Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy 2014-2019 Cefnogi gweithrediad Cynllun Rheoli'r Bailey Hill Cefnogi Cynllun Tref yr Wyddgrug 	Cyngor Sir y Fflint	LT				
5B) Adolygu polisi Sir y Fflint ar gyfer darparu arwydd brown a gwyn i wella golwg cyfleusterau i ymwelwyr ac isadeiledd	CSFf, Llywodraeth Cymru	ST				
5C) Datblygu adran diwydiant ar wefan Archwilio Sir y Fflint	Cyngor Sir y Fflint	ST				
5D) Adolygu a gwella amgylchedd ffisegol prif bwyntiau cyrraedd a choridorau ar draws y sir	Cyngor Sir y Fflint	MT				
5E) Adolygu cysylltiadau cludiant o safbwynt twristiaeth ac ymwelwyr	CSFf, WG, MDA, NWEAB	MT/LT				
5F) Archwilio lleoliadau posibl i ddychwelyd y Fantell Aur i Sir y Fflint o'r Amgueddfa Brydeinig	FTA, CRTG, CSFf	MT/LT				

Allwedd:

CSFf	-	Cyngor Sir y Fflint	CRTG	-	Grŵp Twristiaeth Bryniau Clwyd
NEW	-	Partneriaeth Ardal Marchnata Gogledd Ddwyrain Cymru	NWT	-	Twristiaeth Gogledd Cymru
WG	-	Llywodraeth Cymru	CRFT	-	Fforwm Bwyd Gogledd Ddwyrain Cymru
TP	-	Partneriaethau Tref	FTA	-	Cymdeithas Dwristiaeth Sir y Fflint
TC	-	Cynghorau Tref	MDA	-	Cynghrair Mersi a Dyfrdwy
NWEAB	-	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru			